**Tasg 1**

# Crwn a lliwgar ...?

## Beth maen nhw’n ei guddio?

Darllenwch y darn yma ac atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Caeadau manolau crwn a lliwgar**

Os cerddwch chi i lawr stryd yn Japan, mae’n bosib byddwch chi’n gweld rhywbeth crwn, lliwgar ar y ddaear. Efallai mai patrwm fydd ar y peth crwn. Efallai mai llun fydd arno – llun stori o’r gorffennol, efallai, llun rhyw ddigwyddiad pwysig neu lun rhywbeth sy’n bwysig i’r bobl. Beth bynnag sydd arno, mae’n harddach na beth sydd o dano!

O dan y pethau crwn hyfryd, mae system carthffosiaeth sy’n frwnt ac yn ddrewllyd fel arfer, felly mae’r harddwch ar y tu allan yn cuddio anharddwch tu mewn.

Mae’n bosib gweld y caeadau manolau hyn mewn 1 700 o ddinasoedd, trefi a phentrefi ar hyd a lled Japan ac mae tua 12 000 o gynlluniau gwahanol ar gael. Fel arfer, mae’r cynlluniau’n cynrychioli hanes, diwylliant neu arferion y wlad – neu rywbeth mwy lleol, fel pont neu gastell lleol.

Maen nhw’n cael eu gwneud â llaw. Un ystyriaeth bwysig iawn wrth greu’r caeadau manolau yw ceisio gwneud yn siŵr nad yw pobl a cheir yn llithro arnyn nhw. Felly, rhaid gosod delweddau bach fel cymylau, tonnau neu sêr bach mwy trwchus yn gefndir i’r brif ddelwedd fel bod cerdded ar y rhain yn creu ffrithiant.

Mae hyn i gyd yn dwyn i gof y ddihareb Gymraeg, ‘Nid wrth ei big mae prynu cyffylog”.

Defnyddiwch wybodaeth o’r darn i ateb y cwestiynau hyn. Dydy’r atebion ddim yn amlwg bob tro – rhaid i chi ddehongli’r ateb weithiau.

1. Pam mae twristiaid yn mwynhau gweld caeadau manolau?

2. Pam mae angen gofal arbennig wrth greu’r caeadau manolau?

3. Beth yw ystyr ‘Nid wrth ei big mae prynu cyffylog’? Pa ddihareb Saesneg sy’n cyfateb i’r ddihareb hon?

4. Chwiliwch am ddihareb mewn iaith arall sy’n cyfateb i’r ddihareb hon – beth yw cyfieithiad llythrennol y geiriau?

| **Geirfa** | | |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | **Diffiniad** | **Saesneg** |
| carthffosiaeth | system draeniau i gael gwared â charthion dynol | sewerage, drainage |
| ar hyd a lled | ar draws | all over |
| cynrychioli | dangos, cyfeirio at | (to) represent |
| ffrithiant | yr hyn sy’n digwydd pan fydd un arwyneb yn symud dros arwyneb aralll | friction |
| dwyn i gof | atgoffa | (to) bring to mind |